

Hawliau Dynol yn y Cwricwlwm i Gymru



Hawliau Dynol yn y Cwricwlwm i Gymru

Beth yw hawliau dynol?

Hawliau dynol yw'r mathau o ryddid ac amddiffyniad mae gan bob person hawl i'w derbyn. Mae hawliau dynol yn rhai cyffredinol: mae hynny'n golygu bod gan bawb ohonon ni hawl cyfartal i dderbyn ein hawliau dynol. Mae hawliau dynol yn ddiymwad: mae hynny'n golygu na ddylid eu cymryd i ffwrdd ac eithrio mewn sefyllfaoedd penodol ac yn unol â phroses. Mae pob hawl ddynol hefyd yn anrhanadwy ac yn rhyngddibynnol. Mae hynny'n golygu nad oes modd profi un hawl yn llawn heb brofi'r holl hawliau eraill.

Beth am hawliau dynol plant?

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau dynol penodol sydd wedi'u gwarantu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Cewch hyd i'r holl hawliau hyn ar y [poster](#) yma. Mae gan blant anabl hawliau hefyd o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA), ac fe gewch hyd i'r holl hawliau hynny [yma](#).

Sut mae hawliau dynol yn ffitio i'r Cwricwlwm i Gymru?

Mae deall a hybu parch at hawliau dynol yn rhan o [ofynion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer dylunio'r cwricwlwm](#). Mae tair prif elfen i addysg hawliau dynol:

- Dysgu *am* hawliau dynol: Caffael gwybodaeth a sgiliau am hawliau dynol;
- Dysgu *trwy* hawliau dynol: Datblygu gwerthoedd ac agweddau sy'n dangos parch a newid ymddygiad er mwyn adlewyrchu gwerthoedd hawliau dynol; a,
- Dysgu *ar gyfer* hawliau dynol: Cymell gweithredu cymdeithasol a grymuso dinasyddiaeth weithredol er mwyn hyrwyddo parch at hawliau pawb

Mae Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 hefyd yn [gofyn bod pob lleoliad yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a CCUHPA](#) ymhlith yr holl ymarferwyr a staff ysgol eraill sy'n ymwneud â'r dysgu.

Mae cysyniadau ac egwyddorion hawliau dynol hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â dysgu ar draws pob rhan o'r cwricwlwm. Mae modd creu'r cysylltiadau hyn mewn lleoliadau i sicrhau bod ymarferwyr a phlant yn datblygu dealltwriaeth o sut mae addysg yn cefnogi hawliau dynol.

Sut mae defnyddio'r ddogfen hon?

Mae'r map hwn o'r cwricwlwm yn dangos sut mae CCUHP a CCUHPA yn cysylltu â'r **pedwar diben**, y **themâu trawsbynciol** a phob un o'r **chwe Maes Dysgu a Phrofiad**.

Gall y cwricwlwm yn ei gryswth ddiogelu, hyrwyddo a galluogi hawliau dynol plant yn gyfannol, trwy gefnogi'r holl egwyddorion hawliau dynol yn y ddau Gonfensiwn. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod hawliau dynol yn anrhanadwy ac yn rhyngddibynnol, ac mae angen i blant brofi eu holl hawliau. Fodd bynnag, mae cysylltiad cryf rhwng rhai meysydd arbennig ac erthyglau penodol o'r Confensiynau. Yn y ddogfen hon rydym wedi mapio rhai o'r erthyglau sy'n cael eu cefnogi'n gadarn gan feysydd yn y cwricwlwm. Nid yw ein rhestr yn hollgynhwysol a byddwch hefyd yn gallu creu cysylltiadau ag erthyglau eraill. Bydd hyn yn cefnogi eich cynllunio tymor canolig a hir, ac yn galluogi lleoliadau ac ymarferwyr i gysylltu hawliau dynol plant yn uniongyrchol â dyluniad eich cwricwlwm.

Ar ddiwedd y ddogfen cewch ddolen hefyd i adnoddau hawliau plant ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Mae modd defnyddio'r rhain ar gyfer addysgu o ddydd i ddydd, i gefnogi disgrifiadau penodol o ddysgu



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Sut mae hawliau dynol plant yn sylfaen ar gyfer y pedwar diben?

Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas		
Diben	CCUHP	CCUHPA
<ul style="list-style-type: none"> • â gwerthoedd sicr ac yn sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 2: Dim camwahaniaethu • Erthygl 7: Cofrestriad, enw, cenedl, gofal • Erthygl 8: Cadw hunaniaeth • Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth • Erthygl 14: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd • Erthygl 29: Nodau addysg • Erthygl 30: Plant grwpiau lleiafrifol/brodorol 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 7: Plant ag anableddau • Erthygl 12: Cydnabyddiaeth gyfartal o dan y gyfraith • Erthygl 17: Amddiffyn integriti corff a meddwl • Erthygl 18: Rhyddid i symud a hawl i genedligrwydd • Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn, a mynediad at wybodaeth • Erthygl 24: Addysg
<ul style="list-style-type: none"> • yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 6: Goroesi a datblygu • Erthygl 24: Iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd • Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 7: Plant ag anableddau • Erthygl 17: Amddiffyn integriti corff a meddwl • Erthygl 24: Addysg • Erthygl 25: Hawl i'r safon uchaf o iechyd
<ul style="list-style-type: none"> • yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 6: Goroesi a datblygu • Erthygl 24: Iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd • Erthygl 27: Safon byw sy'n ddigonol • Erthygl 31: Hamdden, chwarae a diwylliant 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 10: Hawl i fywyd • Erthygl 20: Symudedd personol • Erthygl 25: Iechyd • Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

<ul style="list-style-type: none"> • yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac yn iach 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth • Erthygl 16: Hawl i breifatrwydd • Erthygl 17: Mynediad at wybodaeth – cyfryngau torfol • Erthygl 19: Amddiffyn rhag pob math o drais • Erthygl 32: Amddiffyn rhag gwaith peryglus • Erthygl 33: Amddiffyn rhag camddefnyddio sylweddau • Erthygl 34: Amddiffyn rhag ecsbloetio rhywiol • Erthygl 36: Amddiffyn rhag ecsbloetio • Erthygl 39: Ailsefydlu a chymorth 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 16: Rhyddid rhag ecsbloetio, trais a chamdriniaeth • Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth • Erthygl 22: Parch at breifatrwydd • Erthygl 25: Iechyd • Erthygl 28: Safon byw sy'n ddigonol ac amddiffyniad cymdeithasol
<ul style="list-style-type: none"> • yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 24: Iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd • Erthygl 31: Hamdden, chwarae a diwylliant 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 20: Symudedd personol • Erthygl 25: Iechyd • Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon
<ul style="list-style-type: none"> • yn gwneud penderfyniadau pwylllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 12: Hawl i gael eu clywed wrth i benderfyniadau gael eu gwneud • Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth • Erthygl 24: Iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd • Erthygl 28: Mynediad at addysg • Erthygl 29: Nodau addysg • Erthygl 33: Amddiffyn rhag camddefnyddio sylweddau 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol • Erthygl 7: Plant ag anableddau • Erthygl 14: Rhyddid a diogelwch y person • Erthygl 17: Amddiffyn integriti corff a meddwl • Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth • Erthygl 24: Addysg



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

<ul style="list-style-type: none"> • â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 7: Plant ag anableddau • Erthygl 24: Addysg • Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon
<ul style="list-style-type: none"> • yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 3: Lles pennaf y plentyn • Erthygl 15: Rhyddid i gymdeithasu 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 19: Byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned • Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus
<ul style="list-style-type: none"> • yn wynebu heriau ac yn eu goresgyn 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 6: Goroesi a datblygu • Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth • Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 7: Plant ag anableddau • Erthygl 24: Addysg • Erthygl 26: Hawl i ymsefydlu ac ailsefydlu
<ul style="list-style-type: none"> • â'r sgiliau a'r wybodaeth i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallan nhw 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 4: Mesurau Gweithredu Cyffredinol • Erthygl 29: Nodau addysg • Erthygl 42: Hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol • Erthygl 9: Hygyrchedd • Erthygl 19: Byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned • Erthygl 20: Symudedd personol • Erthygl 24: Addysg



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau

Diben	CCUHP	CCUHPA
<ul style="list-style-type: none"> • gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 2: • Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol • Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu • Erthygl 24: Addysg
<ul style="list-style-type: none"> • datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 24: Addysg
<ul style="list-style-type: none"> • ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 24: Addysg
<ul style="list-style-type: none"> • gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth • Erthygl 30: Plant grwpiau lleiafrifol/brodorol 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth
<ul style="list-style-type: none"> • gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n dysgu amdany'n nhw 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 24: Addysg
<ul style="list-style-type: none"> • gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 24: Addysg
<ul style="list-style-type: none"> • deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 24: Addysg



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

<ul style="list-style-type: none"> defnyddio technolegau digidol yn greadigol i rannu gwybodaeth, dod o hyd iddi a'i dadansoddi 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth Erthygl 14: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd Erthygl 16: Hawl i breifatrwydd Erthygl 17: Mynediad at wybodaeth– cyfryngau torfol 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 9: Hygyrchedd Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth Erthygl 22: Parch at breifatrwydd
<ul style="list-style-type: none"> ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 24: Addysg



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Dinasyddion egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd

Purpose	The UNCRC	The UNCRPD
<ul style="list-style-type: none"> canfod, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 2: Dim camwahaniaethu Erthygl 12: Hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth Erthygl 14: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd Erthygl 17: Mynediad at wybodaeth– cyfryngau torfol Erthygl 28: Mynediad at addysg Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu Erthygl 7: Plant ag anableddau Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth Erthygl 24: Addysg
<ul style="list-style-type: none"> trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn Erthygl 2: Dim camwahaniaethu Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu Erthygl 24: Addysg Erthygl 19: Byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus
<ul style="list-style-type: none"> deall ac arfer eu cyfrifodebau a'u hawliau dynol a democrataidd 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn Erthygl 2: Dim camwahaniaethu Erthygl 4: Mesurau Gweithredu Cyffredinol Erthygl 42: Hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol Erthygl 9: Hygyrchedd Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus Erthygl 33: Gweithrediad cenedlaethol a monitro



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

<ul style="list-style-type: none"> deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 12: Hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol Erthygl 17: Amddiffyn integriti corff a meddwl Erthygl 24: Addysg Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus
<ul style="list-style-type: none"> gwybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, yn awr ac yn y gorfennol 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn Erthygl 2: Dim camwahaniaethu Erthygl 8: Diogelu hunaniaeth Erthygl 29: Nodau addysg Erthygl 30: Plant grwpiau lleiafrifol/brodorol 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu Erthygl 24: Addysg Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon
<ul style="list-style-type: none"> parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn Erthygl 2: Dim camwahaniaethu Erthygl 3: Lles pennaf plant Erthygl 4: Mesurau Gweithredu Cyffredinol Erthygl 8: Diogelu hunaniaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon
<ul style="list-style-type: none"> dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 6: Goroesi a datblygu Erthygl 24: Iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd Erthygl 27: Safon byw sy'n ddigonol 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 10: Hawl i fywyd Erthygl 25: Iechyd Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith

Diben	CCUHP	CCUHPA
<ul style="list-style-type: none"> Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 24: Addysg Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon
<ul style="list-style-type: none"> meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 29: Nodau addysg Erthygl 12: Cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 24: Addysg Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus
<ul style="list-style-type: none"> adnabod cyfleoedd a manteisio arnyn nhw 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn Erthygl 2: Dim camwahaniaethu Erthygl 4: Mesurau Gweithredu Cyffredinol Erthygl 27: Safon byw sy'n ddigonol Erthygl 28: Mynediad i addysg Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 24: Addysg Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn, a mynediad at wybodaeth Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon
<ul style="list-style-type: none"> mentro'n bwylllog 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol Erthygl 17: Amddiffyn integriti corff a meddwl Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth Erthygl 24: Addysg



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

<ul style="list-style-type: none"> • arwain a chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 15: Rhyddid i gymdeithasu 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 19: Byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned
<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 12: Hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau • Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth • Erthygl 14: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd • Erthygl 16: Hawl i breifatrwydd • Erthygl 17: Mynediad at wybodaeth– cyfryngau torfol 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol • Erthygl 9: Hygyrchedd • Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth • Erthygl 22: Parch at breifatrwydd
<ul style="list-style-type: none"> • rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn • Erthygl 2: Dim camwahaniaethu • Erthygl 3: Lles pennaf y plentyn • Erthygl 4: Mesurau Gweithredu Cyffredinol • Erthygl 29: Nodau addysg 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu • Erthygl 19: Byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned • Erthygl 24: Addysg • Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus • Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Sut mae CCUHP a CCUHPA yn ffitio i'r themâu trawsbynciol ar gyfer dylunio'ch cwricwlwm?

Mae [canllawiau Llywodraeth Cymru](#) yn nodi y dylai ysgolion ac ymarferwyr ddylunio cwricwlwm sy'n ymgorffori cyfleoedd i ddysgu ac ystyried elfennau trawsbynciol. Dylai'r rhain roi cyfle i'r dysgwyr wneud y canlynol:

- ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- datblygu dealltwriaeth o addysg cydberthynas a rhywioldeb, addysg hawliau dynol ac amrywiaeth, a phrofiadau cysylltiedig â gwaith a gyrfaoedd

Mae'r holl themâu hyn yn diogelu, yn hybu ac yn galluogi hawliau dynol plant yn gyfannol, gan gefnogi'r confensiynau llawn. Mae'r themâu hefyd yn cefnogi'n arbennig erthyglau allweddol yn y ddau gonfensiwn, nad yw rhai ohonynt yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol mewn rhannau eraill o'r cwricwlwm. Isod rhestrir enghreifftiau o'r erthyglau a gefnogir.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Thema drawsbynciol	CCUHP	CCUHPA
Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 2: Dim camwahaniaethu • Erthygl 3: Lles pennaf y plentyn • Erthygl 12: Hawl i gael eu clywed wrth i benderfyniadau gael eu gwneud • Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth • Erthygl 14: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd • Erthygl 16: Hawl i breifatrwydd • Erthygl 17: Mynediad at wybodaeth – cyfryngau torfol • Erthygl 19: Amddiffyn rhag pob math o drais • Erthygl 24: Iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd • Erthygl 29: Nodau addysg • Erthygl 34: Amddiffyn rhag ecsbloetio rhywiol • Erthygl 39: Ailsefydlu a chefnogaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol • Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu • Erthygl 6: Benywod ag anableddau • Erthygl 7: Plant ag anableddau • Erthygl 16: Rhyddid rhag ecsbloetio, trais a chamdriniaeth • Erthygl 17: Amddiffyn integriti corff a meddwl • Erthygl 19: Byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned • Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth • Erthygl 22: Parch at breifatrwydd • Erthygl 23: Parch at y cartref a'r teulu • Erthygl 25: Iechyd • Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Addysg Hawliau Dynol	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 2: Dim camwahaniaethu • Erthygl 3: Lles pennaf y plentyn • Erthygl 4: Mesurau Gweithredu Cyffredinol • Erthygl 6: Goroesi a datblygu • Erthygl 12: Hawl i gael eu clywed wrth i benderfyniadau gael eu gwneud • Erthygl 28: Mynediad at addysg • Erthygl 29: Nodau addysg • Erthygl 42: Hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 1: Diben y Confensiwn • Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol • Erthygl 4: Rhwymedigaethau Cyffredinol • Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu • Erthygl 7: Plant ag anableddau • Erthygl 8: Cynyddu ymwybyddiaeth • Erthygl 24: Addysg
Amrywiaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 2: Dim camwahaniaethu • Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth • Erthygl 14: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd • Erthygl 15: Rhyddid i gymdeithasu • Erthygl 17: Mynediad at wybodaeth– cyfryngau torfol • Erthygl 29: Nodau addysg • Erthygl 42: Hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol • Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu • Erthygl 6: Benywod ag anableddau • Erthygl 7: Plant ag anableddau • Erthygl 8: Cynyddu ymwybyddiaeth • Erthygl 19: Byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned • Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth • Erthygl 23: Parch at y cartref a'r teulu • Erthygl 24: Addysg • Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus • Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Profiadau cysylltiedig â gwaith a gyrfaoedd	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 12: Hawl i gael eu clywed wrth i benderfyniadau gael eu gwneud • Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth • Erthygl 15: Rhyddid i gymdeithasu • Erthygl 27: Safon byw sy'n ddigonol • Erthygl 28: Mynediad at addysg • Erthygl 29: Nodau addysg • Erthygl 31: Hamdden, chwarae a diwylliant 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol • Erthygl 19: Byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned • Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth • Erthygl 24: Addysg • Erthygl 27: Gwaith a chyflogaeth • Erthygl 28: Safon byw sy'n ddigonol • Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus • Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon
Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn • Erthygl 2: Dim camwahaniaethu • Erthygl 7: Cofrestrriad, enw, cenedl, gofal • Erthygl 10: Hawl i weld teulu mewn gwlad arall • Erthygl 11: Hawl i beidio cael eu cymryd allan o'r wlad yn anghyfreithlon • Erthygl 14: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd • Erthygl 17: Mynediad at wybodaeth – cyfryngau torfol • Erthygl 22: Hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches • Erthygl 24: Iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd • Erthygl 27: Safon byw sy'n ddigonol • Erthygl 28: Mynediad at addysg • Erthygl 30: Plant grwpiau lleiafrifol/brodorol • Erthygl 31: Hamdden, chwarae a diwylliant • Erthygl 32: Amddiffyn rhag gwaith peryglus • Erthygl 38: Amddiffyn rhag rhyfel 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 1: Diben y confensiwn • Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu • Erthygl 11: Sefyllfaoedd lle ceir risg ac argyfwng dyngarol • Erthygl 18: Rhyddid i symud a hawl i genedligrwydd • Erthygl 19: Byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned • Erthygl 27: Gwaith a chyflogaeth • Erthygl 28: Safon byw sy'n ddigonol • Erthygl 29: Cyfranogiad mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus • Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Sut mae CCUHP a CCUHPA yn darparu sylfaen ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh)?

Mathemateg a Rhifedd

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

- Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau
- Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol
- Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol
- Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus

Mae datblygu gallu i ddatrys problemau a rhesymu, a gwneud penderfyniadau rhesymegol, gwybodus, y gellir eu cyfiawnhau yn galluogi hawliau plant i **gyfranogi** trwy fedru **cael mynediad i wybodaeth** a **gwneud penderfyniadau cysylltiedig â'u bywydau** (Erthyglau 12, 13, 17).

Mae hawl pob plentyn i **ddatblygu eu sgiliau** (Erthygl 29) yn hawl sy'n borth a fydd yn eu galluogi i brofi eu hawliau eraill. Bydd dysgu yn y MDaPh hwn hefyd yn ychwanegu at brofiad ehangach plentyn o'u hawliau yng nghyswllt **goroesi, llesiant a darpariaeth** (Erthyglau 6, 24 [Gall hyn gynnwys eu profiad o ddysgu trwy'r amgylchedd awyr agored], 27).

Mae hyn yn cefnogi'r erthyglau canlynol yn CCUHPA:

- Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol
- Erthygl 7: Plant ag anableddau
- Erthygl 19: Byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned
- Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn a mynediad at wybodaeth
- Erthygl 24: Addysg



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Iechyd a Lles

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

- Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes
- Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol
- Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau pobl eraill
- Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapia pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles
- Mae cydberthynas iach yn hanfodol ar gyfer ein lles

Mae gan y MDaPh hwn gysylltiadau cryf â sawl **hawl yn ymwneud ag amddiffyniad**, yn arbennig Erthyglau 19, 33, 34, 36. Hefyd mae cysylltiadau clir â hawliau **goroesi a darpariaeth** (Erthyglau 6, 24, 27, 39 a 42) a **dim camwahaniaethu** (Erthygl 2).

Caiff yr **hawliau o ran gwneud penderfyniadau a rhyddid mynegiant** (Erthyglau 12, 13 a 28) a'r hawliau i gyfranogiad diwylliannol, chwarae a chrefydd hefyd eu hybu (Erthyglau 14, 15 a 31). Mae datblygu cydberthynas iach hefyd yn cysylltu **hawliau cyfranogiad a'r hawl i breifatrwydd** (Erthygl 16), yn arbennig yn y drafodaeth ynghylch technoleg.

Mae hyn yn cefnogi'r erthyglau canlynol yn CCUHPA:

- Erthygl 1: Diben y confensiwn
- Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu
- Erthygl 9: Hygyrchedd
- Erthygl 10: Hawl i fywyd
- Erthygl 17: Amddiffyn integriti corff a meddwl
- Erthygl 22: Parch at breifatrwydd
- Erthygl 25: Iechyd



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

- Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd
- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu
- Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd

Mae'r MDAph hwn yn galluogi **cyfranogiad diwylliannol** yn arbennig (Erthyglau 14, 15, 30 a 31 yn arbennig) a hefyd **hawliau cyfranogol** ynghylch **rhyddid mynegiant, deall gwybodaeth a gwneud penderfyniadau** (Erthyglau 12, 13 ac 17). Mae'r MDAph hwn hefyd yn hybu'r hawl i sicrhau **dim camwahaniaethu** (Erthygl 2). Mae dysgu a phrofiadau yn y maes hwn hefyd yn cynnig cyfleoedd i archwilio **hunaniaeth** (Erthygl 8) ac yn cefnogi gwireddu **hawliau ym myd addysg** mewn modd cyfannol (Erthygl 28, 29).

Mae hyn yn cefnogi'r erthyglau canlynol yn CCUHPA:

- Erthygl 2: Diffiniadau yn cynnwys iaith a chyfathrebu
- Erthygl 7: Plant ag anableddau
- Erthygl 24: Addysg



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

- Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
- Mae meddylfryd dylunio a pheirianeg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.
- Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.
- Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.
- Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.
- Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.

Mae dysgu yn y MDaPh hwn yn hybu hawliau ynghylch **goroesi, darpariaeth ac amddiffyniad** yn gryf (Erthyglau 6, 24, 27, 33) a hawliau ynghylch **cyfranogiad, rhyddid mynegiant a gwneud penderfyniadau**, (yn arbennig Erthyglau 12, 13 ac 17, a hefyd Erthygl 16, yr hawl i breifatrwydd). Caiff yr hawliau hyn eu harchwilio yn y dysgu am ystyriaethau egwyddorol yng nghyswllt datblygu a chymhwyso gwyddoniaeth a thechnoleg. Hefyd gall dysgwyr adlewyrchu'r confensiwn llawn, gan gynnwys **cyffredinoedd CCUHP** (Erthyglau 1 a 2) wrth ddatblygu'r gallu i ofyn yn ystyrlon, 'Ydy'r ffaith ein bod ni'n gallu gwneud hyn yn golygu y dylem ni ei wneud?'

Mae hyn yn cefnogi'r erthyglau canlynol yn CCUHPA:

- Erthygl 4: Rhwymedigaethau Cyffredinol
- Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu
- Erthygl 9: Hygyrchedd
- Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn, a mynediad at wybodaeth



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Dyniaethau

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffordd
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol

Mae'r Maes hwn yn hybu **hawliau goroesi** (yn arbennig Erthyglau 6, 24, 35 a 38). Ceir sylfaen gadarn ar gyfer dysgu sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth wybodus, egwyddorol yn hawl plant a phobl ifanc i **gyfranogiad, a'u hawl i wybodaeth a rhyddid mynegiant** (Erthyglau 12, 13, 15, 17). Mae'r Maes hwn hefyd yn hybu'r hawl i sicrhau **dim camwahaniaethu** (Erthygl 2) a **hawliau i gyfranogiad diwylliannol** (yn arbennig Erthyglau 14, 30, 31). Yn bwysig, mae'r Maes hwn hefyd yn hybu Erthygl 4 ac Erthygl 42, **hawl pob plentyn a pherson ifanc i wybod am CCUHP**. Erthyglau 7 ac 8 – cysylltiad cryf â hunaniaeth.

Mae hyn yn cefnogi'r erthyglau canlynol yn CCUHPA:

- Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol
- Erthygl 5: Cydraddoldeb a dim camwahaniaethu
- Erthygl 8: Cynyddu ymwybyddiaeth
- Erthygl 21: Rhyddid mynegiant a barn, a mynediad at wybodaeth
- Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Celfyddydau Mynegiannol

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

- Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol
- Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol
- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan ddefnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg

Erthyglau sy'n llywio'r dysgu yn y Maes hwn yw **rhyddid mynegiant a chyfranogiad** (Erthyglau 12 ac 13), a hawliau i **gyfranogiad diwylliannol** (Erthyglau 14, 15 a 31). Mae'r dysgu yn y maes hwn hefyd yn galluogi rôl y celfyddydau mynegiannol o ran **datblygu sgiliau a doniau plentyn yn llawn** (Erthygl 29).

Mae hyn yn cefnogi'r erthyglau canlynol yn CCUHPA:

- Erthygl 3: Egwyddorion Cyffredinol
- Erthygl 21: Rhyddid mynegiant
- Erthygl 24: Addysg
- Erthygl 30: Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Adnoddau Pellach

Mae [cynlluniau Llysgenhadon](#) y Comisiynydd Plant yn ddi-dâl ac yn darparu adnoddau bob tymor i ysgolion ddatblygu dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau plant a dysgu am hawliau dynol.

[Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru](#), yw canllawiau'r Comisiynydd Plant ar gyfer lleoliadau addysg. Mae'n cyflwyno dull gweithredu ymarferol a seiliwyd ar egwyddorion CCUHP, gan ddefnyddio enghreifftiau o ymarfer o ysgolion ledled Cymru.

Mae [papur safbwynt](#) y Comisiynydd Plant ar Addysg Hawliau Dynol yn y Cwricwlwm Newydd yn dangos pam mae'n rhaid i hawliau dynol fod yn ganolog i'r cwricwlwm rydyn ni'n ei ddatblygu yng Nghymru.

Edrychwch yn yr [Adnoddau](#) i weld dolenni pellach i'r cwricwlwm a rhai penodol a seiliwyd ar wersi.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales